| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **27 Medi 2012** |
| TEITL: | **Cofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cymeradwyo trefn y Pwyllgor Archwilio o ymdrin ag adroddiadau archwilwyr allanol** |
| AWDUR: | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir Cofrestr o Adroddiadau Archwilwyr Allanol ar wasanaethau'r Cyngor ers 2008 (Atodiad 1). Rhestrir yr adroddiadau fesul adroddiadau blynyddol, adroddiadau achlysurol ac adroddiadau cenedlaethol ble cyfeirir at Gyngor Gwynedd.

1.2 Gofynion y Swyddfa Archwilio Cymru erbyn hyn yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw'r Pwyllgor Archwilio gyda'r Pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion a nodir gan yr archwiliwyr allanol. Byddai hyn yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoi crynodeb byr i'r Cabinet.

1.3 Enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol:

Adroddiadau ESTYN, CyMAL, Archifau Cenedlaethol
Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru
Adroddiadau Achlysurol Swyddfa Archwilio neu gan gyrff archwilio eraill
Adroddiadau Cenedlaethol sydd gyda chyfeiriad at Cyngor Gwynedd yn yr adroddiad.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Cynigir y drefn isod i'w dilyn ar gyfer ymateb i'r gofynion uchod:

| **Beth** | **Sut** | **Pwy** | **Adrodd i** | **Amlder** |
|---|---|---|---|---|
| Cadw Cofrestr | Cysylltu â’r Adrannau bob chwarter i gadw’r gofrestr yn gyfredol | Pennaeth Strategol a Gwella | Cyflwyno’r gofrestr i’r Pwyllgor Archwilio | Bob 6 mis |
| Adroddiadau archwilio allanol drafft | Y drefn uchod | Pennaeth Adran Strategol a Gwella yn atgoffa’r Pennaeth o’r gofyn | Tîm Rheoli Corfforaethol /Cabinet | Yn dilyn derbyn adroddiad drafft |
| Adroddiad cryno ar fuddion gweithredu’r argymhellion | Adroddiad cryno | Aelod Cabinet/Pennaeth | Pwyllgor Archwilio, i’w gymeradwyo | Yn dilyn derbyn adroddiad drafft |
| Argymhellion | Cytuno’r argymhellion terfynol gyda’r archwilwyr allanol | Aelod Cabinet/Pennaeth | Y Pennaeth i sicrhau fod yr argymhellion yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau gwaith, gyda’r aelod cabinet yn gyfrifol am sicrhau cyflawni’r argymhellion. | Yn ôl y gofyn |

Pennaeth Strategol a Gwella yn cadw cofrestr corfforaethol o adroddiadau archwilio allanol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis.

Yn dilyn derbyn adroddiad archwilio allanol, yr Aelod Cabinet perthnasol yn cyflwyno adroddiad ar fuddion gweithredu'r argymhellion drafft i'r Pwyllgor Archwilio.

Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion.

Y Pennaeth perthnasol i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau gwaith, gyda'r Aelod Cabinet yn gyfrifol am sicrhau cyflawni'r argymhellion.

2.2 Byddai mabwysiadu’r drefn hon yn sicrhau fod y pwyllgorau craffu yn gallu canolbwyntio ar graffu gweithrediad unrhyw argymhellion sy’n deillio o’r adroddiadau archwilio.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio fabwysiadu’r drefn a gynigir uchod ar gyfer cydlynu a rhoi drosolwg ar adroddiadau archwilwyr allanol.